PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 5 | Chwefror 2, 2023 | 50c.

# Codi calon

I achosion bach y dyddiau hyn lle mae chwech o addolwyr yn mwynhau dod ynghyd bob pnawn Sul, yn sicr gellir teimlo a diolch fod y ffyddloniaid yn derbyn bendith o gynnal oedfa. Y fendith a'r pleser o gael sgwrs wyneb yn wyneb ar ddiwedd yr oedfa sydd yn brofiad hyfryd ac ysgafn ar ddechrau'r wythnos. Cyfle fel petai, i gael swig o'r awel o Galfaria, chwedl yr emynydd, yn ein balŵn ysbrydol!

Ond i weld bron i dri deg o bobl wedi dod ynghyd i gefnogi'r oedfa bnawn ddydd Llun Diolchgarwch yng nghapel Berea, Pentre Berw, i wrando ar y Parchedig Beti-Wyn James yn pregethu ar y testun, 'Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.' Roedd y profiad yn ysgafnach na'r arfer ac yn codi calon pawb! Gwelid sirioldeb yn llygaid y gynulleidfa wrth ddweud, 'Toedd hi'n braf gweld cynulleidfa fel erstalwm?' 'Toedd hi'n braf cael llond capel o ganu?' 'Toedd hi'n braf cyfarfod Llywydd Cenedlaethol yr Annibynwyr?' 'Toedd hi'n braf mentro i wneud rhywbeth newydd yn lle aros yn disgwyl?'

### Cynulleidfa amrywiol

Diolch i aelodau o gapeli o bob enwad, ymhell ac agos a ddaeth i gefnogi'r oedfa ar bnawn Llun, a diolch i Margaret a Donald am daflu eu rhwydau. Diolch i Alwyn ac Anwen am addurno'r capel gyda ffrwythau. Diolch i Evie Jones am drefnu'r gylchdaith er mwyn i'r Parchedig Beti-Wyn James bregethu mewn tri chapel ar yr ynys sef Paran, Berea a Dothan.

### Y cefndir

Er gwybodaeth i eglwysi eraill. Cychwynnwyd eglwys Annibynnol Berea, Pentre Berw, fel ysgol Sul gan goliar o'r enw Roger Rowlands ar ei aelwyd sef Tŷ Coch canol. Gweithiai'r coliars yng ngwaith glo, Penrhyn Mawr ar ffin Cors Ddyga' ym Mhentre Berw yn y cyfnod hwn. Holltwyd y cerrig o'r graig gerllaw gan y coliars rhwng stêm bore a nos a chariwyd hwy gyda cheffylau a throliau coch gan y ffermwyr i 'r safle lle'r oedd yr adeiladwyr yn gweithio. Agorwyd yr achos gyda thair oedfa ar Sul braf ar ddechrau Medi 1839.

Er gwaetha'r ffliw a'r Covid
Diolch i Dduw – 'dan ni yma o hyd.

**Donald Glyn**





# Colledion

Cydymdeimlwn gyda theulu'r diweddar Barchedig Blodwen Jones yn eu profedigaeth yn enwedig ei mab Ioan. Bu Blodwen yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yng Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno o 2000–7.

Cydymdeimlwn hefyd gyda theulu'r diweddar Barchedig Gwynfor Williams yn eu profedigaeth yn enwedig ei ferched Eurgain a Delyth. Bu Gwynfor yn weinidog yn Cana, Llanddaniel a Berea, Gaerwen, 1981–5; Jerwsalem, Llanberis, 1985–93; Tabernacl, Cwm-y-glo 1988– 2008 a Bethel, Arfon 1991–2008: Seion, Llanddeiniolen a Saron Bethel (E.F.), 1995–2008; Bethmaca 1996–2008; Pendref 2001–2008.

Bydd teyrnged i'r ddau'n ymddangos yn *Y Tyst* yn y dyfodol agos.

# Nebo Felindre




Llwyddiant mawr yn Felindre oedd diwrnod agored capel Nebo a drefnwyd gan wragedd yr eglwys o dan arweiniad Rhys Locke. Daeth dros 70 o bentrefwyr ac aelodau'r achos i'r capel – rhai am y tro cyntaf erioed – i fwynhau lluniaeth a sgwrs. Roedd cyfle hefyd i brynu nwyddau amrywiol gan gynnwys canhwyllau ar gyfer y Nadolig gan gwmni HollyStar Candle Company. Hoffem ddiolch yn arbennig i Audrey Ivey am fynd o gartref i gartref yn dosbarthu pamffledi yn hysbysebu'r digwyddiad ac i'r holl wragedd am baratoi'r capel ar gyfer y diwrnod hyfryd hwn.

**William Rhys Locke**

# Y weinidogaeth ddoe a heddiw (1)

*Dyma gychwyn cyfres o erthyglau gan y Parchg Dr Geraint Tudur sy'n bwrw golwg dros ein gweinidogaeth fel eglwysi Annibynnol. Fel sylfaen i'w sylwadau mae'n defnyddio llyfryn a ganfu yn ddiweddar ar silff ei stydi sy'n codi cwestiynau diddorol am yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y 65 mlynedd diwethaf a beth ddylem ei wneud nawr.*




Ym 1953, cododd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gomisiwn o dri ar ddeg o wŷr profiadol 'i chwilio i sefyllfa y Weinidogaeth Heddiw.' Eu henwau oedd: Pennar Davies, D. L. Trefor Evans, T. Lloyd Evans, W. B. Griffiths, E. D. Jones, R. J. Jones, J. Vernon Lewis (Cadeirydd), T. H. Lewis, L. Alun Page (Ysgrifennydd), Brinley Richards, Glyn Richards, J. Lloyd Thomas, ac E. Curig Davies.


*Pennar Davies*

Dros gyfnod o bum mlynedd bu'r comisiwn hwn yn brysur wrth ei waith, ac wrth i'w aelodau dynnu tua therfyn y dasg oedd wedi ei hymddiried iddynt penderfynwyd, yn hytrach na chyhoeddi eu hadroddiad yng nghanol adroddiadau eraill yr Undeb neu yn *Y Tyst*, ei gyhoeddi 'yn Bamffled ar wahân.' Yr ofn, mae'n debyg, oedd i'r adroddiad ddiflannu yng nghanol y pentwr papurau oedd yn cael eu dosbarthu o flwyddyn i flwyddyn ar adeg y Cyfarfodydd Blynyddol, ac iddo beidio, o ganlyniad, a chael y sylw yr oedd yn ei deilyngu.

### Natur, cyflwr a chyfryngau

Deuddeg tudalen oedd i'r pamffled, ac fe'i gwerthwyd am swllt. Ymddangosodd ym mis Mai 1958 ac yr oedd ynddo wyth adran yn ogystal ag atodiad; (a) Ystadegaeth y Sefyllfa, (b) Seiliau Hanesyddol Gweinidogaeth yr Annibynwyr, (c) Derbyn a Pharatoi Myfyrwyr Diwinyddol, (ch) Cyflwr a Chyfryngau'r Eglwysi, (d) Y Weinidogaeth Amser Llawn, (dd) Y Weinidogaeth Gynorthwyol, (e) Gweithgareddau'r Eglwys, (f) Merched a'r Weinidogaeth, ac yna, ar y diwedd, atodiad gan y lleygwyr oedd yn aelodau o'r comisiwn.

Diddorol hynod yw ei ddarllen heddiw, drigain a phump o flynyddoedd wedi ei gyhoeddi. Dechreua trwy nodi eto y dasg a roddwyd i'r comisiwn, sef 'ystyried "natur, cyflwr a chyfryngau" y weinidogaeth' yn y sefyllfa fel ag yr oedd yng nghanol pumdegau'r ugeinfed ganrif ymhlith eglwysi'r Annibynwyr Cymraeg.

### Dylanwadau

Wrth agor y maes cyfeirir at y 'dylanwadau cyffredinol' oedd y tu ôl i'r 'andwyo cyfoes ar grefydd gyfundrefnol' ac 'arnom ni [yr Annibynwyr] fel ar bob cangen arall o'r Eglwys Gristionogol.' Ymhlith y dylanwadau hynny, nodwyd 'malltod cyffredinol yr oes; y trai mewn addoliad cyhoeddus; y diffyg safonau ysbrydol; effaith seciwlariaeth, a swyn byd y *gadgets*; a'r holl ddadrithio sy'n dilyn dau ryfel byd, gan siglo sylfeini traddodiadol gwledydd y Gorllewin.'

Mae'r sôn am y dylanwadau hyn yn gwbl gyfarwydd i ni; maent yn dal i bwyso'n drwm ar ein gwynt, a'n corddi, wrth i ni geisio deall ein sefyllfa a mynd i'r afael â'r her sy'n ein hwynebu heddiw. Ond dyna'n union yr oedd y comisiwn yn ei deimlo wrth iddo yntau fynd i'r afael â'i waith yr holl flynyddoedd hynny yn ôl. Y cwestiwn mawr, felly, yw, faint pellach ydym ni wedi symud erbyn hyn?

### Gwirioneddau anghyffyrddus

Wrth edrych ar weddill cynnwys yr Adroddiad dros yr wythnosau nesaf, y bwriad yw rhoi cyfle i ni i ystyried yr hyn a ddywed, ac mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny oherwydd, os na wnawn ni, pwy arall sy'n debygol o wneud? Y mae gwirioneddau i'w hwynebu a phenderfyniadau i'w hystyried, a'u hystyried ar frys. Eisoes, y mae mesur brawychus o ddiymadferthedd yn ein plith, ac wrth i'r haul ysbrydol fachlud mae llai a llai yn barod i ymroi i waith. Ond dyna'n union sydd ei angen; pobl sy'n barod i dorchi llewys, i wingo yn erbyn y tywyllwch a chynnal fflam y ffydd, pobl sy'n mynd i wrthod ildio ac sydd am ymroi i waith, doed a ddelo.

Boed i ni, felly, edrych ar yr adroddiad ac ystyried yr hyn a ddywedir, ac wedi gwneud hynny, myfyrio'n weddigar uwchben y sefyllfa sydd eto yn ein hwynebu.

## DARN ARIAN CESAR

**Yn y gyfres achlysurol hon mae Alun Lenny yn sôn am ddarnau arian hynafol o'i eiddo – gan gynnwys rhai sy'n dyddio o gyfnod y Testament Newydd. Y tro yma, denariws o'r hanes enwog am Iesu Grist yn gorchymyn 'Talu pethau Cesar i Gesar a phethau Duw i Dduw' sy'n cael sylw ganddo.**

Dychmygwch y sefyllfa. Mae Iesu Grist yn Jerwsalem yn ystod wythnos olaf ei fywyd daearol, â'r ddinas yn ferw drwyddi ac yn orlawn o bererinion oedd wedi teithio yno ar gyfer Pasg yr Iddewon. Roedd e wedi cythruddo'r arweinwyr crefyddol trwy feirniadu nhw'n hallt yn nameg y Winllan a'r Tenantiaid. Ceisiant ei ddal, meddai Efengyl Marc, ond roedd arnynt ofn y dyrfa. Felly, dyma'r Phariseaid yn cynllwynio gyda'r Herodianiaid sut i'w ladd. Nawr, roedd y Phariseaid yn casáu'r Rhufeiniaid, tra bod yr Herodianiaid yn eu cefnogi, ond roedd y ddwy garfan, oedd fel arfer mor elyniaethus i'w gilydd, yn casáu Iesu ddigon i ymuno mewn cynllwyn yn ei erbyn. A'r allwedd i'r cynllwyn oedd darn arian gydag wyneb ac enw Cesar arno.

### Yr hanes gan Marc

'Anfonwyd ato rai o'r Phariseaid ac o'r Herodianiaid i'w faglu ar air. Daethant, a meddent wrtho, "Athro, gwyddom dy fod yn ddiffuant, ac na waeth gennyt am neb; yr wyt yn ddi-dderbyn-wyneb, ac yn dysgu ffordd Duw yn gwbl ddiffuant. A yw'n gyfreithlon talu treth i Gesar, ai nid yw? A ydym i dalu, neu beidio â thalu?" Deallodd yntau eu rhagrith, ac meddai wrthynt, "Pam yr ydych yn rhoi prawf arnaf? Dewch â darn arian yma, imi gael golwg arno." A daethant ag un, ac meddai ef wrthynt, "Llun ac arysgrif pwy sydd yma?" Dywedasant hwythau wrtho, "Cesar." A dywedodd Iesu wrthynt, "Talwch bethau Cesar i Gesar, a phethau Duw i Dduw." Ac yr oeddent yn rhyfeddu ato.' (Marc 12:13–17; Mth. 22:15–22 a Luc 20:20–26)

*parhad ar y dudalen gefn*

Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 2 2023 RHIF 101

# Dyfodol cylchgronau Cristnogol Cymraeg?

**Yn wyneb newidiadau yn y byd cyhoeddi a'r modd y mae grantiau'n cael eu rhannu, mae Aled Davies yn holi tybed beth yw dyfodol ein cylchgronau Cristnogol Cymraeg.**

Yn ystod y dyddiau diwethaf fe wnaeth y Parch. Rhodri Glyn Thomas, Cyn-weinidog Treftadaeth yn y Cynulliad, ddatganiad yn rhybuddio bod angen diogelu'r cylchgronau Cymraeg sy'n bodoli eisoes, a bod angen dysgu gwersi o'r gorffennol mewn perthynas â dyfarnu grantiau. Mae hyn yn sgil penderfyniad y Cyngor Llyfrau i wahodd ceisiadau am swm o hyd at £30,000 er mwyn peilota dau gylchgrawn newydd sbon yn y Gymraeg, un ym maes chwaraeon a'r llall ym maes hanes.

Unwaith eto, daeth yn bryd i'r holl gylchgronau Cymraeg gyflwyno'u ceisiadau am nawdd, ac yn eu plith y mae *Cristion* a'r *Traethodydd*. Yn ei ddatganiad, meddai Rhodri, 'Mae'n rhaid bod yn ofalus iawn ynglŷn â sut mae hyn yn effeithio ar gyhoeddiadau eraill ac mae'n rhaid edrych ar y gyllideb gyfan. Dwi'n meddwl, y dyddiau yma pan mae arian yn brin, ei bod hi'n bwysig amddiffyn yr hyn sydd eisoes wedi derbyn cyllid a fyddwn i ddim yn hoffi gweld unrhyw gyhoeddiad arall yn dioddef yn sgil hyn.'

Mewn datganiad, dywedodd llefarydd ar ran y Cyngor Llyfrau 'ei bod hi'n gystadleuaeth agored a bod cyfle i gwmnïau cylchgronau sy'n bodoli yn barod i ehangu eu darpariaeth'.


Mae hen hanes i newyddiaduraeth a chylchgronau crefyddol yng Nghymru, o ddyddiau cynnar *Seren Gomer* hyd at heddiw. Ond dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd newidiadau mawr, gyda'r *Goleuad* a *Seren Cymru* yn uno ac yn mynd yn bapur digidol, ar lein, *Y Llan* yn dod i ben, a lleihad sylweddol yn nifer prynwyr a thanysgrifwyr y cylchgronau eraill sy'n weddill.


Pan gychwynnais ar fy ngwaith gyda'r Cyngor Ysgolion Sul yn 1989 roeddem yn dal i gyhoeddi'r cylchgrawn *Antur* i blant, ac mae atgofion melys iawn gennyf o gydweithio hapus gyda'r golygydd Gareth Maelor, a chyfarfodydd golygyddol difyr yn y cartref ym Montnewydd. Ond yn fuan iawn dyfarnwyd bod y gwerthiant o 2,300 copi bob mis yn annigonol i gyfiawnhau grant, a daeth y cylchgrawn i ben. Erbyn hyn, mae'n debyg y byddai gwerthiant o'r fath yn cael ei ystyried yn llwyddiant ysgubol.

Dros yr un cyfnod gwelwyd cylchrediad *Cristion*, sy'n cael ei gefnogi gan chwe enwad gwahanol, yn lleihau o dros 3,000 copi y rhifyn i oddeutu'r 1,000 erbyn hyn. Dau gylchgrawn o naws grefyddol sy'n derbyn grant gan y Cyngor Llyfrau yw *Cristion* a'r *Traethodydd*. Bu'n rhaid iddynt hwythau gystadlu am yr arian grant a cheisio cyfiawnhau rheswm dros barhad. Yn naturiol, holl bwrpas rhoi grant yw gwella ansawdd a chynyddu cylchrediad, er mwyn dangos gwerth am arian. Dyma alwad felly ar i ninnau fel darllenwyr *Cenn@d* i wneud popeth o fewn ein gallu, nid yn unig i danysgrifio a darllen, ond hefyd i annog eraill i brynu a darllen a hyrwyddo'r cylchgronau hyn.

## Gwledd o ddarpariaeth

Ar hyn o bryd cyhoeddir *Cenn@d* yn wythnosol, a hynny yn rhad ac am ddim ar y we. Mae hynny trwy garedigrwydd y Presbyteriaid a'r Bedyddwyr, sy'n ariannu'r cynllun, a thrwy gydweithrediad yr Annibynwyr, sy'n rhannu tair tudalen â ni. Braf oedd cael dathlu ein 100fed rhifyn yn ystod yr wythnos diwethaf. Yn yr un modd, cyhoeddir *Y Tyst* gan yr Annibynwyr yn wythnosol fel papur mewn print, gyda chopïau'n cael eu rhoi ar y we ymhen amser. Mae'r




*Gwyliedydd* yn gylchgrawn a gyhoeddir gan yr Eglwys Fethodistaidd bob deufis, ac mae hwnnw eto ar gael am ddim i bwy bynnag sydd am ei dderbyn.

Ers 1984 mae *Cristion* wedi cael ei gyhoeddi fel cylchgrawn rhyng-enwadol, ac erbyn hyn yn gyhoeddiad lliw llawn sy'n cynnwys erthyglau difyr i bob oed, dan olygyddiaeth Carwyn a Nerys Siddall a Dylan Rhys. I'r sawl sy'n chwilio am rywbeth mwy ysgolheigaidd, cyhoeddir *Y Traethodydd* yn chwarterol o dan olygyddiaeth D. Densil Morgan. Cyhoeddir *Gair y Dydd* fel adnodd chwarterol sy'n cynnig myfyrdod dyddiol, ac ychwanegwch at hyn gylchgrawn deufisol *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, deunydd digidol Cristnogaeth21, a sawl papur eglwys leol sy'n cael ei rannu ar y we, ac fe sylweddolwn fod yna ddigon o ddeunydd difyr a chyfoes ar gael yn y Gymraeg.

## Newyddion cyflym

Erbyn hyn daeth rhannu newyddion yn gymaint haws drwy'r cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter. Yn aml, cawn ofalaethau ac eglwysi'n cyhoeddi pytiau o newyddion gyda thoreth o luniau; mae nifer o erthyglau swmpus hefyd yn cael eu rhannu, gan annog darllenwyr i ymateb â'u sylwadau. Mae hyn yn chwyldroadol o ran ennyn a chreu diddordeb, gan roi cyfle i ymateb yn syth bin, yn wahanol i lythyr yn ymddangos wythnosau ar ôl i'r erthygl ymddangos mewn papur newydd. Ceir nifer o dudalennau pwrpasol ar Facebook er mwyn rhannu gwybodaeth a lluniau, e.e. tudalen Y Capel, lle ceir deialog yn gyson iawn am ddyfodol addoldai ar hyd a lled Cymru. Yn yr un modd mae llawer o fudiadau'n cyhoeddi eu newyddion ar y cyfrwng, gan ei wneud yn haws i eraill ei rannu ar ei ffrwd eu hunain. Mae'n debyg y bydd llwyddiant cylchgronau yn y dyfodol yn ddibynnol ar eu gallu i gyfuno cyfrwng print a digidol – model hybrid y clywsom gymaint o drafod amdano dros y blynyddoedd diwethaf.

Ond, fel gyda phob dim, mae angen darllenwyr, ac i sicrhau parhad mae angen prynwyr. Os yw'r niferoedd yn dal i leihau, mae 'na beryg i ni golli rhai o'r cyhoeddiadau pwysig hyn. Gobeithiwn am ddyfodol llewyrchus i *Cristion* a'r *Traethodydd*, ond mae hynny yn ein dwylo ni. Bydd yn rhaid cyflwyno cais am grant, a chystadlu â gweisg a darparwyr eraill, a hynny hefyd mewn byd digidol ac ar lein. Mae angen cynyddu nifer y tanysgrifwyr a chyflwyno'r cylchgronau hyn i farchnad newydd. Dwi'n meddwl mai'r ymadrodd Saesneg 'Use it or lose it' sy'n crynhoi'r sefyllfa orau! Tybed be fedrwn ni ei wneud i gefnogi'r cyhoeddiadau Cristnogol hyn?

# Biliau ynni o fis Ebrill ymlaen


Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi cynllun ar gyfer cynorthwyo cwsmeriaid annomestig – gan gynnwys **addoldai – gyda'u biliau ynni** ar gyfer Ebrill 2023–Mawrth 2024. Gellir gweld y cyhoeddiad yma: https://www.gov.uk/guidance/energy-bills-discount-scheme (Saesneg yn unig).

I'r rhan fwyaf o gwsmeriaid – a hynny yn awtomatig trwy eu biliau ynni – fe drefnir gostyngiad yn y pris fesul uned a godir. Dangosir manylion y gostyngiad trwy'r ddolen uchod, ac fe ddylai cyflenwyr ynni yrru cadarnhad i bob cwsmer cyn diwedd mis Mawrth 2023. Mae yna rai amodau o ran y math o gytundeb sydd gan y cwsmer â'r cyflenwr. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu y bydd cost ynni fesul uned yn codi o Ebrill 2023 o'i gymharu â'r taliadau presennol, ond bydd yn dal yn llai na phris y farchnad.

Bydd nifer fach o addoldai yn gymwys hefyd ar gyfer gostyngiad ychwanegol trwy gynllun ETTI (Energy and Trade Intensive Industries), os ydynt yn safle neu'n adeilad hanesyddol neu'n atyniad i ymwelwyr; neu'n cynnal llyfrgell, archifdy neu amgueddfa. Bydd angen gwneud cais am y cymorth ychwanegol hwn, ac nid yw'r dull ymgeisio wedi ei gyhoeddi eto.

Yn anffodus, nid oes gan Cytûn yr adnoddau i gynghori addoldai unigol ar eu sefyllfa – dylid cysylltu â'r cyflenwr ynni – ond rydym yn falch fod yr achos a roesom gerbron Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda chymorth gwybodaeth gan nifer o eglwysi lleol, wedi dwyn rhywfaint o ffrwyth.

*Trwy law Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru*





Ymunwch â Gweddi dros Ysgolion wrth i ni ddod at ein gilydd o bob rhan o Gymru i weddïo dros ein hysgolion lleol nos Fercher, 8 Chwefror, am 7pm. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o bythefnos Caru ein Hysgolion, a gellir dod o hyd i adnoddau yma: https://www.prayforschools.org/loveourschools/.

Gweledigaeth Gweddi dros Ysgolion yw ysgogi Cristnogion i gefnogi cymunedau eu hysgolion trwy weddi. Ledled y Deyrna Unedig, mae grwpiau o rieni, athrawon neu weithwyr ysgolion yn cyfarfod yn rheolaidd i weddïo dros eu hysgolion lleol.

Dewch â ffrind gyda chi am 45 munud ysbrydoledig i weddïo gyda'ch gilydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Andy Hughes: wales@prayforschools.org




Y siaradwr yn ein hencil i'r gymuned amaethyddol eleni fydd Wyn Evans, sy'n ymweld â ffermydd yn ne Cymru yn bennaf er mwyn estyn allan gyda'r Efengyl ac i weddïo gyda phobl.

Mae'r digwyddiad hwn wedi cael ei gynnal yn flynyddol ers rhyw bum mlynedd. Y bwriad yw cynnig cymdeithas a chefnogaeth i'r rhai sydd â chysylltiad â'r byd amaethyddol – maes sydd dan dipyn o bwysau y dyddiau hyn. Dyma gyfle i ddod at ein gilydd I fwynhau cymdeithas, rhannu beichiau, dod i adnabod amaethwyr eraill mewn cyd-destun Cristnogol a chefnogol. Croeso mawr i unrhyw un ymuno.

Bydd cinio [rhad ac am ddim] am 1 o'r gloch ac yna'r cyfarfod yn dilyn am 2 o'r gloch. Rhif ffôn cyswllt Bryn-y-groes yw 01678 520752. Byddai'n hyfryd cael eich cwmni. (Byddai'n gymorth o ran arlwyo pe baech yn rhoi gwybod os ydych yn bwriadu dod.)

## Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2022–2023

Mae Rhaglen Cymanfaoedd Canu Cydenwadol 2022–23 nawr ar gael!

Gellir eu harchebu drwy ffonio Helen Gibbon, Ysgrifennydd y Pwyllgor Mawl Cydenwadol: 01267 290518

ADNABOD **Cymeriadau'r Hen Destament**

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 16 Cyfiawnder ffydd

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 9)

### Darllen: Genesis 15:1–6

Un o nodweddion pobl Dduw yn y Beibl yw'r modd y maent yn symud o fuddugoliaeth a gwrhydri ffydd i lefydd o amheuon a chwestiynu. Mae'n debyg mai'r enghraifft orau o hyn yw Elias yn dilyn buddugoliaeth mynydd Carmel. Yn 1 Brenhinoedd 18, mae Elias yn herio'r brenin anghyfiawn, Ahab, ac yn casglu ynghyd holl broffwydi Baal. Yno mae Elias yn gosod yr her: 'Pa hyd yr ydych yn cloffi rhwng dau feddwl? Os yr ARGLWYDD sydd Dduw, dilynwch ef; ac os Baal, dilynwch hwnnw. ... Yna galwch chwi ar eich duw chwi, a galwaf finnau ar yr ARGLWYDD, a'r duw a etyb drwy dân fydd Dduw' (18:21, 24). Yn dilyn ateb clir yr Arglwydd, fe gawn y bobl yn cyffesu, 'Yr ARGLWYDD sydd Dduw! Yr ARGLWYDD sydd Dduw!' (18:39) Wedi gweld y fuddugoliaeth oruwchnaturiol hon, mae'n chwithig fod pennod 19 yn agor ag Elias yn dianc mewn ofn rhag Ahab a'i wraig, ac yn ei gael ei hun mewn lle o anobaith llwyr, hyd yn oed yn dymuno marw! 'Dyma ddigon bellach, O ARGLWYDD; cymer f'einioes, oherwydd nid wyf fi ddim gwell na'm hynafiaid.' (19:4)

Gallwn ddarllen sut mae Duw yn gofalu am angen Elias yn y bennod ac yn diolch am y trugaredd a brofodd, ac felly hefyd yn Genesis 15. Mae Abraham yntau newydd brofi buddugoliaeth ryfeddol, ac wedi amlygu gwrhydri anghyffredin wrth fynd allan i gyfarfod â'r brenhinoedd hyn gyda 318 o filwyr yn unig! Ond, erbyn dechrau pennod 15, fe'i cawn yn cwestiynu ffyddlondeb a daioni Duw, a'i eirwiredd yn ei addewidion iddo: 'O Arglwydd DDUW, beth a roddi i mi, oherwydd rwy'n para'n ddi-blant, ac etifedd fy nhŷ yw Eleasar o Ddamascus?' (Genesis 15:2) Ond, fel yn hanes Elias, cawn yr Arglwydd yn trin ei blentyn yn drugarog, yn ei atgoffa o'r addewid, ac yn rhoi arwydd iddo o ffyddlondeb cyfamod y nef ar ddiwedd y bennod. Mwy am hynny'r tro nesaf ...

Heddiw, rwyf am ganolbwyntio ar le'r bennod hon yng nghanol ein deall fel pobl Dduw o'r modd y mae Duw yn dod i berthynas â ni, ac y down ninnau i berthynas â Duw. Yr adnod allweddol yw 15:6, 'Credodd Abram yn yr ARGLWYDD, a chyfrifodd yntau hyn yn gyfiawnder iddo.' Mae'r adnod yn cael ei dyfynnu droeon gan Paul (Rhufeiniaid 4:3,9,22; Galatiaid 3:6) a gan Iago (2:23), ac mae'r gwirionedd fod cyfiawnhad drwy ffydd yn unig yn ganolog i holl stori'r Beibl, fel mae'r awdur at yr Hebreaid yn nodi yn Hebreaid 10:38–12:2. (Cofiwch, mae yna rai sy'n honni mai creadigaeth Paul yw hyn, a hynny ar waethaf y ffaith fod yr awdur at yr Hebreaid yn mynnu bod y gwirionedd yn perthyn i'r cyfnod cyn y dilyw, i gyfnod y patriarchiaid ac i hanes pobl Dduw drwy gyfnod y brenhinoedd a thu hwnt.)

Yn yr adnodau hyn, fe welwn mai ffydd oedd hanfod cyfiawnder Abraham, hynny yw, credu yn Nuw oedd yn peri bod Duw yn ei gyhoeddi'n gyfiawn o'i flaen. Ac er mwyn pwysleisio nad yw perthynas â Duw yn deillio o'n ffyddlondeb neu ein gweithredoedd ni, a phwysleisio nad ufuddhau i gyfraith Duw yw sail ein perthynas, mae'r adnod yn Genesis yn dangos hyn ym mywyd un anwadal – un ffyddlon ac anffyddlon. Dyma hefyd bwyslais Paul yn Rhufeiniaid 4, dadl sy'n dod i'w phenllanw yng nghyhoeddiad rhyfeddol Rhufeiniaid 5:1,2: 'Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Trwyddo ef, yn wir, cawsom ffordd, trwy ffydd, i ddod i'r gras hwn yr ydym yn sefyll ynddo. Yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn y gobaith y cawn gyfranogi yng ngogoniant Duw.'

Yn hanes Abraham, ac yn benodol yn yr hanes hwn, fe gawn Dduw, yng nghanol amheuon Abraham, yn cadarnhau ei addewid iddo. Mae'r ffordd y gwneir hyn yn adnodau 1–6 yn haeddu sylw gan ei bod yn amlygu'r gwirionedd bendigedig fod y Duw a wnaeth bopeth yn fwy nag abl i gadw ei air. Sylwch sut y mae Duw yn gwahodd Abraham i '[e]drych tua'r nefoedd, a rhifa'r sêr os gelli'. Does dim gair yn dod o gyfeiriad Abraham, ond yn y distawrwydd mae awdur Genesis yn nodi, yn y fan honno, ei fod wedi credu Duw, a bod Duw wedi priodoli neu gyfrif cyfiawnder iddo ar sail ei ffydd. Fel y nodais, ffydd Abraham! Rydym yn gwybod na fyddai unrhyw werth inni sôn am ei weithredoedd, gan y bydd angen inni esbonio Genesis 16 maes o law. Ond, mi fyddwn, os Duw a'i myn, yn cael mynd at benodau eraill hefyd, penodau fel Genesis 22. Mae gwaith ffydd yn bwysig anghyffredin, fel y gwelir yn Iago 2, ond nid gwaith neu ufudd-dod i 'weithredoedd y Gyfraith' sy'n dod â ni i berthynas fywiol a sicr â Duw. O'n rhan ein hunain, medrwn ddweud gyda'r Ysgrythur, 'Y dyn truan ag ydwyf! Pwy a'm gwared i o'r corff hwn a'i farwolaeth?' Ond medrwn ateb hefyd: 'Duw, diolch iddo, trwy Iesu Grist ein Harglwydd!' (Rhufeiniaid 7:23–4)

Mae yna ymadrodd Lladin enwog sy'n cyfleu'r paradocs hwn, ymadrodd o eiddo Martin Luther, yr un a ddefnyddiodd Duw yng nghychwyniad y Diwygiad Protestannaidd a'r un ddaeth yn Gristion wrth ddarlithio ar y Rhufeiniaid. Yn ôl Luther, y gwir am ein cyflwr ni yw '*simul iustus et peccator*', sef, yn gyfiawn ac yn bechadur ar yr un pryd. Felly Abraham, felly ninnau hefyd!

1. Sut mae Duw wedi delio â chyfnodau o lawenydd a chyfnodau o dristwch yn eich bywydau chi?
2. I ba raddau y byddwch yn cael eich cynnal gan y gwirionedd fod perthynas â Duw ac Iesu yn dod drwy waith a rhodd Duw o ffydd yn hytrach na thrwy eich gwaith chi?
3. 'Mae'r Cristion yn cael ei galonogi a'i synnu gan y paradocs rhyfeddol sydd yn yr Efengyl', ac mae Abraham yn enghraifft o'r paradocs hwn. I ba raddau rydych yn cydymdeimlo â hyn, ac i ba raddau mae hyn yn eich perswadio i fynd at Iesu o'r newydd?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 5 Chwefror, am 7.30yh**
Mae 4 Chwefror wedi cael ei ddynodi'n Ddiwrnod Canser y Byd. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r clefyd hwn a chawn glywed stori'r gantores 'gospel' Nia Price.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 5 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
R. Alun Evans yn cyflwyno'r rhaglen olaf mewn cyfres yn trafod gwahanol themâu. Cymdeithas yw'r thema heddiw

**Sul, 5 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Lona Roberts, Caerdydd

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# CENHADAETH AWYRAGORED

Cofiaf yn dda am dair cenhadaeth y bûm yn rhan ohonynt pan oeddwn yn fyfyriwr – ym Mlaenau Ffestiniog, Cross Hands a Rhydaman. Daeth yr eglwysi ynghyd i weddïo a chenhadu o fewn i'w cymunedau lleol. Cafwyd cymdeithas hyfryd a thystiolaeth fendithiol oedd yn ymestyn y tu hwnt i waliau'r capeli gwahanol.

Ceir nifer o enghreifftiau heddiw o ymgyrchoedd cenhadol lleol a chenedlaethol sy'n cyhoeddi'r Efengyl mewn cenhedloedd amrywiol, i genedlaethau gwahanol a thrwy ddulliau arbrofol. Er enghraifft, ystyriwn y defnydd a wnaed gan eglwysi o dechnoleg i ymestyn eu tystiolaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn arbennig mewn ymateb i Covid. Yn yr un modd pan nad oedd Billy Graham yn gallu trafaelu o gwmpas y byd, oherwydd henaint, i bregethu'r Efengyl daeth y byd ato ef trwy gyfrwng y rhyngrwyd i glywed yr un neges Gristnogol.

### Pregethu awyragored

Dull arall o ymestyn y tu hwnt i bregethu arferol capeli yw'r arfer o bregethu yn yr awyr agored. Wrth feddwl am bregethu yn yr awyr agored dychmygwn ddynion fel Daniel Rowland, Howell Harris, George Whitfield a John Wesley yn cyhoeddi'r Efengyl i'r tyrfaoedd a heidiai i'w clywed. Daw Billy Graham yn pregethu'r Efengyl i filoedd o bobl o gwmpas y byd hefyd i'r meddwl.

Ceir sawl enghraifft yn y Beibl o bregethu yn yr awyr agored. Gallwn feddwl am y proffwydi'n galw ar bobl Israel i ddychwelyd at Dduw. Ac wrth gwrs fe bregethodd Iesu Grist ei bregeth enwocaf ar y mynydd! Yn yr awyr agored y pregethodd Pedr ar fore'r Pentecost a phregethodd Paul hefyd yn yr awyr agored i Genedl-ddynion o gwmpas Môr y Canoldir.

### Gwrthwynebiad

Yn gywilyddus mae'r eglwys sefydledig wedi gwrthwynebu pregethu yn yr awyr agored ar hyd y canrifoedd. Gellir meddwl yma am y gwrthwynebiad a brofodd yr Apostolion, y Diwygwyr Protestannaidd a'r Tadau Methodistaidd. Rhyfedd o gofio am Gomisiwn Mawr yr Iesu i bregethu'r Efengyl i'r holl fyd (Mathew 28:18 –20)!

### Manteision a heriau

Mae cynnal oedfa awyr agored yn gyfle gwych i Gristnogion uno i addoli Duw ac i rannu'r Efengyl â phobl trwy sgwrsio â nhw, dosbarthu taflenni Cristnogol, cynnal cyfweliadau a defnyddio pypedau. Maga hyder mewn Cristnogion i dystiolaethu am Iesu Grist. Ceir ymatebion amrywiol gan gynnwys chwilfrydedd, gwawd, beirniadaeth a chymeradwyaeth.

### Cenhadaeth yr awyragored

Asiantaeth drawsenwadol sy'n cyhoeddi'r Efengyl i bobl yr Ynysoedd Prydeinig ers 1853 yw'r Open Air Mission. Seilir ei harwyddair ar ddwy anogaeth yn y Testament Nerwydd i 'afael yn dynn yn y gair sydd i'w gredu; (Titus 1:9) ac i 'gyflwyno gair y bywyd' (Philipiaid 2:16). Yng Nghymru mae'r genhadaeth yn gweithredu ar strydoedd ein trefi i bregethu'r Efengyl i bobl y tu fas i'r eglwys. Cyhoedda adnoddau Cristnogol a gweithreda hefyd drwy fisoedd yr haf poblogaidd ar draethau (fel y United Beach Mission a ddechreuodd yn y Rhyl ym 1950).

Rheolwr maes presennol OAM yw John Paul Earnest o sir Fôn. Ef hefyd sy'n cydlynu'r gwaith yng ngogledd Cymru. David Harding sy'n cydlynu'r gwaith yn Ne Cymru. Mae'r pregethwyr di-Gymraeg dwi wedi bod ynghlwm wrthynt yn gefnogol i bregethu Cymraeg cyhoeddus.

Dywedodd un o arweinwyr y gwaith yn ne Cymru wrthyf, ac yntau'n gyn-genhadwr profiadol a dreuliodd flynyddoedd mawr ym Mhacistan, bod Cymru'n faes caletach na'r wlad honno! Dengys hyn bod ein gwlad heddiw'n faes cenhadol sydd arni angen clywed a chredu'r Efengyl.

### Symbyliad

Gallwch gael mwy o wybodaeth am OAM ar wefan y gymdeithas: (https://www.oamission.com). Gofynnwn yn garedig i chi weddïo dros y gwaith hollbwysig hwn. Wedi'r cyfan yr Ysbryd Glân sy'n agor calonnau pobl i dderbyn Iesu Grist fel eu Hachubwr ac Arglwydd personol.

Mae'n debyg i rywun gwyno wrth D. L. Moody unwaith na hoffai'r ffordd roedd yn efengylu. Atebodd Moody ei fod yn well ganddo ei ffordd ef o efengylu na ffordd y rhai a gwynai yn ei erbyn o beidio ag efengylu!

Beth am gynnal oedfa awyr agored amser y Pasg neu'r Nadolig? Gallwch gynnal stondin mewn marchnad neu ffair. Ac fe allwch ddosbarthu llenyddiaeth Gristnogol o ddrws i ddrws. 'Codwch eich llygaid ac edrychwch ar y meysydd, oherwydd y maent yn wyn ac yn barod i'w cynaeafu.' (Ioan 4:35)

**Peter Davies**



## DYDD GWEDDI'R BYD 2023 TAIWAN

Cynhelir dydd Gweddi'r Byd ddydd Gwener, 3 Mawrth

Thema: 'Clywais am eich ffydd'

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gael yn Gymraeg drwy e-bostio Mary Thomas: rema.thomas@btinternet.com.

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gefndir Taiwan, 20 sleid gyda theitlau Cymraeg ynghyd â sgript Cymraeg [Taiwan Presentation Welsh Slides Download with Welsh script] ar gael o'r Swyddfa Ganolog drwy e-bostio office@wwdp.org.uk

Pris y PowerPoint Saesneg yw £2. ond medrwch sicrhau'r lawr lwythiad Cymraeg ond i chi gyfrannu at eich casgliad lleol.

Deunydd ar gyfer plant i'w cael yn rhad ac am ddim i'w lawr lwytho oddi ar y wefan: www.wwdp.org.uk

**Beti-Wyn James, Carys Ann**
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

# Barn Annibynnol

## 'O! Na ddoi'r nefol wynt.'

Faint o weithiau yr ydych chi a fi wedi gwneud sylw tebyg i, 'Wel roedd honna'n oedfa fythgofiadwy,' wrth ddisgrifio rhyw oedfa arbennig. Ystrydeb efallai, er bod yr oedfa'n wirioneddol yn teimlo yn un felly ar y pryd, hynny yw, yn oedfa a dybiwn ar y pryd a fyddai'n aros yn y cof. Ond, er hyn, gwaetha'r modd mynd yn angof wna'r mwyafrif ohonynt.

Er i mi glywed cannoedd o oedfaon erbyn hyn, prin iawn yw'r rhai sy'n aros yn y cof. Mae ambell i destun wedi fy nharo ac wedi creu argraff arnaf, cymaint fel fy mod yn ei gofio a chofio tipyn o'r bregeth hefyd. A minnau nawr yn pregethu neu gynnal oedfaon ar y Sul, prin iawn yw'r oedfaon a fyddaf yn eu mynychu. Ond byddaf yn gwrando yn rheolaidd ar fyfyrdodau pobl eraill sydd i'w cael ar-lein. A diolch amdanynt.

### Cofiadwy

Yn ystod cyfnod y clo, mi gofiaf ddelwedd ar y teledu a wnaeth gryn argraff arna i. Gweld y Parchedig John Gwilym Jones yn pregethu ond *heb* gynulleidfa. Pregethu i gapel gwag am nad oedd hawl cynnal oedfaon ar y pryd. Mi drawodd yr olygfa hon fi: ei weld yn sefyll yn y pulpud a'r seddau o'i flaen yn wag. Mi deimlais yn emosiynol wrth wrando ar y neges. Wna i fyth anghofio'r olygfa honno.

Cafodd myfyrdod y Parchedig Huw George a draddodwyd o fynwent capel Rhydwilym effaith arnaf hefyd. Cofiaf y darlleniad yn glir, dameg yr esgyrn sychion allan o Lyfr Eseciel. Ac mi gredaf y bydd y myfyrdod hwnnw'n un o'r rheini a gaiff le yn nhrigfannau fy nghof. A gallaf eich sicrhau hefyd bod clywed Rhian Morgan yn sôn am ei phrofiad ysbrydol wrth iddi gymryd rhan mewn oedfa yn yr eglwys yn Llandeilo a'r llwybr a gymerodd ei bywyd yn dilyn hynny, yn un peth arall a effeithiodd arnaf.

### Bythgofiadwy

Mae'r uchod i gyd yn ddigwyddiadau anarferol iawn ond mi dybiaf mai prin iawn yw'r achlysuron hynny mewn gwirionedd. OND, hoffwn rannu hanes oedfa a gynhaliwyd yn ein gofalaeth ni ym Methlehem Newydd Sanclêr yn ôl ym mis Tachwedd. Bu'r oedfa hon yn gwbl fythgofiadwy! Yn un o'r profiadau rhyfeddol hynny a fydd yn aros gyda mi, a gweddill y gynulleidfa, drwy gydol ein hoes.

Oedfa ydoedd yng ngofal aelodau o eglwys Goreaidd o Gaerdydd dan arweiniad Pastor Jacob. Roedd rhyw ugain ohonynt wedi dod atom, bron â bod yr aelodau i gyd. Criw o bobl ifainc yn llawn afiaith ac yn awyddus i roi diolch a chlod i Dduw am iddynt gael eu cyflwyno i Gristnogaeth oedd y rhain. Mae hynny yn eu hun yn rhywbeth anghyffredin.



*Jacob a Sookyi Park*

### Robert Jermain

Byrdwn yr oedfa oedd eu bod am roi diolch i'r Cymry am y cenhadwr Robert Jermain Thomas a aeth allan i Gorea i weithio fel cenhadwr ar ran y London Missionary Society. Dyma i chi beth o'i hanes. Tra bu'n gweithio yn Tsieina penderfynodd Robert fynd i weithio yng Nghorea. Ar yr adeg yma, roedd Corea ar gau i dramorwyr ac fe laddwyd miloedd o'r Coreaid oedd wedi newid eu ffydd. Cyrhaeddodd Thomas Gorea yn 1865, yr ail genhadwr Protestannaidd i ymweld â'r lle. Llwyddodd i ddosbarthu Beiblau mewn Tsieinëeg oherwydd nad oeddynt ar gael yn yr iaith Goreaidd. Roedd yn benderfynol iddynt gael Beiblau yn eu hiaith eu hun. Ond roedd hynny yn erbyn y drefn ac fe waharddwyd unrhyw un rhag gwneud hynny.



*Robert Jermain Thomas*

### Merthyr

Parhaodd Thomas gyda'i waith ond fe'i dienyddwyd am wneud hynny. Fe'i hystyrir fel y merthyr Protestannaidd cyntaf. Yn ôl rhai, rhoddodd Thomas ei gopi olaf o'r Beibl i'w ddienyddiwr ac fe gafodd hyn effaith ryfeddol arno yntau yn ei dro. Daeth rhai ohonynt o hyd i'r Beiblau a rhag cael eu cosbi, defnyddiwyd y tudalennau ganddynt i bapuro waliau eu tai fel bod modd iddynt ddarllen yr ysgrythur. Datblygodd y ffydd Gristnogol ac fe ddaeth yr eglwys yng Nghorea yn un o'r cryfaf yn y byd.

Er mawr gywilydd i mi, ni wyddwn ddim o'r hanes am Robert Jermain Thomas ac ychydig a wyddwn am fwriad yr aelodau Coreaidd cyn iddynt ddod atom. Ond fe gafodd eu hymweliad effaith syfrdanol arnom i gyd. Roeddynt am i ni ganu 'Mor fawr wyt ti' a 'Dyma gariad fel y moroedd' a chaneuon eraill ganddynt hwy. Roeddynt yn gerddorion arbennig ac yn gantorion eithriadol o dda. Gwisgodd rhai o'r merched eu gwisg draddodiadol ac roedd yn olygfa hardd.

### Dan deimlad

Cyn i'r oedfa ddechrau, mi ddechreuodd y côr ymarfer un gân ac mi ffeindiais fy hun yn emosiynol iawn – dan deimlad. Fedra i ddim egluro hyn, dydw i ddim yn berson felly fel rheol. Edrychais o'm cwmpas ac yn amlwg roedd rhai eraill o'r gynulleidfa yn amlwg dan deimlad ac roedd hyn *cyn* i'r oedfa ddechrau. Cyflwynwyd hanes Thomas gyda phwyslais ar y ddyled oedd ganddynt i'r Cymry am gyflwyno Cristnogaeth iddynt. Dangoswyd ffilm am Ryfel Corea i gyfeiliant 'Rise me up' ac ar ôl canu 'Mor fawr wyt ti' a 'Dyma gariad fel y moroedd' roedd nifer ohonom yn ddagreuol.

Nid chefais y fath brofiad erioed ac mae'n un na fyddaf *byth* yn ei anghofio. A dyna oedd barn gweddill y gynulleidfa hefyd. Dywedais wrth ein hymwelwyr, nad oeddwn yn credu eu bod yn sylweddoli maint y dylanwad gawsant arnom y bore hwnnw. Ond roeddynt yn gwbl ddiymhongar ac yn daer yn eu huchelgais i deithio drwy Gymru er mwyn diolch am y rhodd a roddwyd iddynt gan Robert Jermain Thomas a'r gwaddol fu yn sgil ei waith.

### Ysbryd Glân

Tybiaf ein bod wedi cael ein cyffwrdd y bore hwnnw a medraf wirioneddol ddweud bod yr oedfa wedi bod yn 'ysbrydoledig' ym mhresenoldeb yr Ysbryd Glân. Ac onid oes angen hynny arnom yn y dyddiau sydd ohoni yn fwy nag erioed? I gael ein cyffwrdd; i gael ein hysgogi a'n bywiocáu fel ein bod ninnau'n medru bwrw ati i weithredu ewyllys ein Harglwydd gyda brwdfrydedd newydd. Rhyfeddach fyth yw ei bod wedi cymryd grŵp o aelodau ifainc o eglwys Goreaidd i wneud i mi sylweddoli hynny.

**Annalyn Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# DARN ARIAN CESAR – parhad

### Enw'r Cesar



Pa Gesar oedd hwn? Mae'r ateb gan Luc, sy'n nodi bod Ioan Fedyddiwr wedi dechrau ei weinidogaeth 'yn y bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad Tiberiws Cesar' (Luc 3:1), ac at Ioan yr aeth Iesu i gael ei fedyddio, wrth gwrs. Byddai Tiberiws yn teyrnasu am wyth mlynedd arall, felly rhaid mai ei wyneb e oedd ar y darn arian a roddwyd i Iesu, sef yr union fath o ddenariws a brynais mewn arwerthiant gan gwmni Tennants am £30. Mae'r darn arian tua'r un faint a'n darn pum ceiniog ni. Gyda llaw, mae Efengyl Ioan (6:23) yn cyfeirio at ddinas o'r enw Tiberias, ac yn nodi bod Môr Galilea (Llyn Cinnereth neu Lyn Genasaret) hefyd yn cael ei alw'n Fôr Tiberias (6:1 a 21:1).

### Casineb at y trethi


Ar hyd oes Iesu ar y ddaear hon, roedd casineb mawr ymhlith yr Iddewon tuag at drethi Cesar a thuag at y casglwyr trethi, gan gynnwys y disgybl Mathew. Pan ddywedodd Iesu wrth y prif offeiriaid a'r henuriaid 'fod y casglwyr trethi a'r puteiniaid yn mynd i mewn i deyrnas Dduw o'ch blaen chi.' (Mat.21:31) Does ryfedd iddynt gael eu gwylltio ac am ei waed e. Dyma hwy'n meddwl am ffordd i'w faglu gyda chwestiwn am y trethi. Maent yn dechrau trwy seboni Iesu: 'Athro, rwyt ti'n onest. Rwyt ti'n dysgu ffordd Duw, ac yn glynu wrth yr hyn sy'n wir.' Ac wedyn, dyma'r gyllell yn mynd mewn: 'A yw'n gyfreithlon talu treth i Gesar?' Petai Iesu'n ateb 'Ydyw' byddai'n cael ei gondemnio fel bradwr i'r genedl Iddewig gan y Phariseaid. Ond petai Iesu'n ateb 'Nac ydyw' byddai'r Herodianiaid yn rhedeg at y Rhufeiniaid i'w gyhuddo fe o fod yn rebel.

Roeddent yn hyderus o rwydo Iesu: *heads you lose, tails you lose*! Ond yna mae Iesu'n gofyn am ddarn arian, ac ar ôl holi wyneb ac enw pwy sydd arno, yn gwneud y datganiad enwog: 'Talwch bethau Cesar i Gesar, a phethau Duw i Dduw.' Cafodd yr adnod yma ei chamddefnyddio, yn fy marn i, fel cyfiawnhad arwynebol dros wahanu pethau'r byd a phethau ysbrydol. Beth mae Iesu'n ei wneud yw atgoffa'r Iddewon, o'r ddwy garfan, bod yr Ail Orchymyn gan Dduw yn gwahardd gwneud 'delw gerfiedig.' Felly, byddai dadl oedd yn seiliedig ar arian oedd â 'delw' o berson yn annilys.

### Gwir Fab Duw

Er gwaethaf hyn, yn fuan wedyn mae Iesu'n cael ei arestio oherwydd: 'Cawsom y dyn hwn yn arwain ein cenedl ar gyfeiliorn, yn gwahardd talu trethi i Gesar, ac yn honni mai ef yw'r Meseia, sef y brenin.' Ar sail y cyhuddiadau celwyddog hynny y cafodd ei groeshoelio fel rebel gan y Rhufeiniaid, a osododd y llythrennau gwawdlyd INRI sef 'Iesu'r Nasaread Brenin yr Iddewon' uwch ei ben ar y groes.

I ddod 'nôl at ddenariws Tiberiws. Testun rhyfeddod i mi yw cael syllu ar yr union wyneb welodd Iesu pan ofynnodd am ddarn arian, ac fel yntau, ei ddal yn fy llaw. Arno mae'r arysgrif TI CAESAR DIVI AVG F AVGUSTUS (Tiberiws Cesar Mab yr Awgwstws dwyfol, Awgwstws). Roedd y Rhufeiniad wedi dyrchafu ei dad Awgwstws Cesar, a enwir gan Luc yn stori'r geni, yn dduw ar ôl ei farwolaeth. Felly, roedd Tiberiws yn cael ei alw'n 'Fab y duw'. Ond tra roedd yntau'n teyrnasu ar ei orsedd yn Rhufain, roedd gwir Fab Duw wrthi mewn cornel anghysbell o'i ymerodraeth eang yn cyhoeddi dyfodiad Teyrnas nad oes diwedd iddi – sef Teyrnas Dduw.




## PROSIECT DENMAN 2023

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) ar y thema:

### Ein Hysgol Sul: 'Dweud am Iesu.'

Yr ydym ni bellach wedi symud at ailgydio yn ein cyrddau a'n hysgolion Sul ni, ac er i ni fod ar wahân am gyfnod, mae neges yr Iesu yn aros yr un. Sut fyddech chi'n hoffi sôn wrth bobl am eich ysgol Sul chi ac am neges Iesu Grist?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn dydd Llun, 5 Mehefin 2023.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Wrecsam ym mis Mehefin.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*